# Sgiliau ar gyfer Ffyniant – Gweledigaeth ar gyfer 2020

NIACE CYMRU

The National Voice for Lifelong Learning | Y Llais Cenedlaethol dros Ddysgu Gydol Oes

"Mae systemau addysg, dysgu a sgiliau Cymru yn gwneud llawer i gynorthwyo miloedd o blant ac oedolion i wneud y gorau o'u talentau a llwyddo yn eu bywydau. Maen nhw hefyd, fodd bynnag, yn methu â chefnogi llawer gormod o bobl a allai elwa o ddysgu ac a fyddai wedyn yn cyfrannu mwy i'n cyrhaeddiadau a'n heconomi.

Yn NIACE Cymru, rydym yn  ymdrechu i hyrwyddo dysgu a dylanwadu ar bolisi ac ymarfer er mwyn sicrhau fod mwy o gyfleoedd ym mhob oed, ac mewn llawer o ffyrdd gwahanol, i oedolion gyfranogi mewn dysgu. Byddai'r manteision cymdeithasol yn sylweddol pe gallem greu cymdeithas ddysgu gydol oes wirioneddol – cymunedau cryf, cyrhaeddiadau gwell gan blant, cymdeithas fwy goddefgar, mwy o wirfoddoli, gwell iechyd a lefelau lles uwch.

Mae manteision economaidd cymdeithas ddysgu gydol oes hefyd yn enfawr, gyda buddsoddiad sgiliau gwell ac uwch yn arwain at gynhyrchiant uwch a busnesau mwy llwyddiannus."

Cerys Furlong
Cyfarwyddwr, NIACE Cymru




# Uchelgais NIACE Cymru

Mae cyhoeddiad diweddar NIACE Cymru - *Yr Her Ôl-16* - yn amlinellu'r heriau economaidd, cymdeithasol a sgiliau sy'n wynebu Cymru yn y blynyddoedd i ddod. Er mwyn ymateb i'r rhain, mae oedolion angen y sgiliau i oroesi a ffynnu mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Rhaid i'r Llywodraeth nesaf fuddsoddi mewn sgiliau ar gyfer oedolion o bob oed, i lefel sy'n sicrhau fod nifer sylweddol uwch o oedolion yn cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant erbyn diwedd tymor y Cynulliad nesaf nag sy'n digwydd ar hyn o bryd a bod oedolion yn gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau sydd ganddynt.

Dylai manteision dysgu gydol oes, fel sy'n cael eu hamlinellu yn *Yr Her Ôl-16* - gael eu hadnabod ar draws pob adran o'r llywodraeth, a dylai adrannau gydweithio gyda'i gilydd a gyda sefydliadau ledled Cymru i greu diwylliant o ddysgu gydol oes gwirioneddol.

## Mae ein deuddeg blaenoriaeth ar gyfer dysgu gydol oes yn cynnig datrysiadau i'r heriau sy'n ein hwynebu:




## 1 Deddfu ar gyfer tegwch: cyllido cytbwys sydd o fantais i bob dysgwr

Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gosod addysg a hyfforddiant i bobl 19+ oed ar sail statudol wahanol i rai 16-19 oed. O ganlyniad, mae toriadau i gyllidebau addysg wedi cael effaith anghymesur ar oedolion, heb ystyried anghenion sgiliau'r genedl. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'u pwerau deddfu i ddiwygio'r ddeddfwriaeth os oes angen er mwyn gosod pob addysg oedolion ar yr un sail statudol i greu trefn decach a mwy cytbwys a fydd o fantais i'r holl ddysgwyr.

## 2 Cymharu sgiliau yn rhyngwladol

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno'r rhaglen ar gyfer Rhaglen Asesu Rhyngwladol Cymwyseddau Oedolion (PIAAC) er mwy cael cymhariaeth ryngwladol deg o lefelau sgiliau mewn llythrennedd, rhifedd a dysgu digidol ymhlith oedolion yng Nghymru. Fel gyda Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) ar gyfer rhai 15 oed, byddai hyn yn darparu sylfaen tystiolaeth gadarn ar gyfer datblygu polisi sgiliau i'r dyfodol.

## 3 Cyllid ar gyfer sgiliau hanfodol



Mae lefelau llythrennedd a rhifedd sylfaenol yn dal yn wael yng Nghymru ac mae angen gwella sgiliau digidol. Dylai'r gefnogaeth i sgiliau hanfodol gael ei ariannu'n llawn ar gyfer pob oedolyn, gyda phwyslais newydd ar gynorthwyo'r rhai gyda'r lefelau sgiiau isaf i gymryd rhan mewn dysgu anffurfiol. Mae cysylltiad clir rhwng sgiliau sylfaenol gwael a thlodi. Cynyddu sgiliau sylfaenol = trechu tlodi. Dylai Llywodraeth Cymru osod targedau ar gyfer codi safonau addysg oedolion ac anelu at fod y gorau yn y Deyrnas Unedig ac ymhlith goreuon Ewrop.



# 4 Adolygiad gyrfa i bob oedolyn

Dengys ymchwil gan Gomisiwn y Deyrnas Unedig ar Gyflogaeth a Sgiliau ei bod yn debygol y bydd 13.5 miliwn o gyfleoedd swydd newydd rhwng 2008 a 2018 ond dim ond 7 miliwn o newydd-ddyfodiaid i'r farchnad lafur. Mae pobl hefyd yn gweithio'n hirach ac yn newid swyddi'n fwy aml, eto ychydig o fynediad sydd gan oedolion i gyngor ac arweiniad am sgiliau a gyrfaoedd. Dylai adolygiadau personol canol gyrfa fod ar gael i bob oedolyn – gan ddod â gwybodaeth am addysg a sgiliau at ei gilydd i helpu pobl i benderfynu pa ddatblygu sgiliau ychwanegol y maen nhw ei angen.

# 5 Prentisiaethau Safon Fyd-eang

Dylai prentisiaethau, cyfleoedd hyfforddiant a llwybrau dysgu eraill seiliedig ar waith gael eu datblygu a'u hyrwyddo fel dewis galwedigaethol dilys heblaw'r byd academaidd. Rhaid i Lywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad:

- Fuddsoddi ar gyfer caniatáu i niferoedd cyson o brentisiaid ymrestru a gwneud cynnydd bob blwyddyn
- Sicrhau fod prentisiaethau ar gael yn eang i bob oedolyn, nid rhai dan 25 oed yn unig
- Gosod gwiriadau trwyadl ar ansawdd cynlluniau prentisiaeth, gan gynnwys gwarantu y bydd prentisiaid yn dysgu ar gyfer eu gyrfa, nid ar gyfer eu swydd bresennol yn unig
- Ymrwymo i neilltuo cyllid canlyniadol Barnett o lefi hyfforddiant Llywodraeth y Deyrnas Unedig - fydd yn weithredol i fusnesau Cymru - i gael ei wario ar gyflenwi prentisiaethau yng Nghymru.



# 6 Cydraddoldeb i ddysgwyr rhan-amser

Dylai polisi Llywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad hyrwyddo astudio rhan-amser, a rhoi parch cyfartal i bob ffurf o addysg oedolion. Dylai dysgwyr gael mynediad i ddulliau astudio hyblyg, a dylai dysgu rhan-amser fod yn gainc allweddol yn strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ehangu mynediad i addysg bellach ac addysg uwch. Yn sgil Adolygiad Diamond, dylai Llywodraeth Cymru weithredu i unioni anghyfartaleddau ariannu sy'n bodoli rhwng dysgu amser llawn a rhan amser yn y maes hwn.



# 7 Canolfannau Dysgu Cymunedol: gwneud y defnydd gorau o asedau cymunedol

Mae'r cyd-destun economaidd dros y pum mlynedd ddiwethaf wedi arwain at golli llawer o ganolfannau cymunedol a gwasanaethau, fodd bynnag gwyddom eu bod yn hanfodol i atal safonau gwael iechyd a lles, ennyn diddordeb dinasyddion a chryfhau cymunedau. Dylai gwasanaethau cymunedol fel llyfrgelloedd, cyfleusterau hamdden a chanolfannau cymunedol gael eu cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel asedau cymunedol.

Er mwyn cadarnhau eu swyddogaeth ac adlewyrchu eu pwysigrwydd i'r gymuned, fe ddylent gael eu symbylu i weithio gyda darparwyr addysg i ddod yn ganolfannau dysgu ar gyfer y gymuned gyfan. Byddai hyn yn sicrhau defnydd mwy effeithiol o isadeiledd, a denu incwm ychwanegol i wneud yr asedau hyn yn gynaliadwy.



## 8 Cynnig mwy cydlynol ar gyfer dysgu fel teulu

Mae cydberthynas glir rhwng lefel addysg rhieni a pherfformiad plant yn yr ysgol. Dangoswyd bod rhaglenni dysgu fel teulu yn cynyddu cyrhaeddiad plant yn ogystal ag annog oedolion i gynyddu eu sgiliau.


Dylai dysgu fel teulu neu ddysgu sy'n pontio'r cenedlaethau barhau'n ganolog ar gyfer codi safonau addysg disgyblion ac oedolion. Dylai ffrydiau cyllid fel Cymunedau yn Gyntaf a chyllid Ewropeaidd, a'r Grant Amddifadedd Disgyblion gael eu cydlynu ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol er mwyn osgoi dyblygu a gwella arferion.

## 9 Gwir bartneriaeth ar gyfer busnes a sgiliau

Mae cenedl o oedolion sydd wedi eu haddysgu'n dda o fudd i ni gyd: mae unigolion yn gwella eu cyfleoedd bywyd a'u henillion; mae cyflogwyr yn gwella cynhyrchiant a chadw staff; ac mae economi lewyrchus yn ein galluogi i drin amrywiaeth o broblemau cymdeithasol. Mae cyd-fuddsoddi yn ganolog i ddyfodol Cymru gyda'r Llywodraeth, unigolion a chyflogwyr i gyd yn buddsoddi mewn dysgu. Drwy bartneriaethau sgiliau rhanbarthol gallwn sicrhau gwir newid, cryfhau'r berthynas rhwng busnes a darparwyr addysg a hyfforddiant. Dylai Llywodraeth newydd fuddsoddi mewn ymgyrchoedd i amlygu buddion gwella sgiliau i unigolion a busnesau.

## 10 Llwybrau cynnydd newydd - Fframwaith ar gyfer Dysgu Cymunedol Oedolion

Mae Cymru angen darparu cynnig clir ar gyfer pob oedolyn – beth bynnag yw eu hamcanion a'u hanghenion dysgu. Byddai cyflwyno Fframwaith ar gyfer Dysgu Oedolion yn dod ag eglurder i'r ystod o raglenni a mentrau ac yn dynodi llwybrau cynnydd clir ar gyfer dysgwyr. Byddai'n lleihau dyblygu ac yn galluogi darparwyr i weithio i'w cryfderau. Dylai'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Oedolion ddynodi pob cyfle dysgu ar gyfer oedolion ar draws Addysg Bellach, Addysg Uwch, Dysgu yn y Gwaith, Cymraeg i Oedolion, Dysgu Cymunedol ac yn y blaen.



## 11 Cleifion darbodus – gwneud dysgu yn rhan annatod o'r Gwasanaeth Iechyd

Mae'r dull 'Gofal Iechyd Darbodus' o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn un i'w edmygu ac yn gyraeddadwy; ond mae angen i'r cyhoedd fod wedi ymgysylltu'n llwyr, ac yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles. Profwyd fod gan addysg oedolion effaith gadarnhaol sylweddol ar ymddygiad iechyd, a rhaid i'r blaid nesaf fydd yn llywodraethu sicrhau fod yna fuddsoddi ar gyfer gwneud dysgu oedolion yn rhan annatod o'r gwasanaeth iechyd.

## 12 Gwella mynediad i ddysgu ar gyfer gofalwyr

Rhaid gwella mynediad gofalwyr i addysg oedolion. Rhaid i'r blaid nesaf fydd yn llywodraethu weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i eithrio gofalwyr o'r 'rheol 21 awr' sy'n cyfyngu ar eu hawl i fudd-daliadau, gan gynnwys Lwfans Gofalwyr, pan fydd mwy na 21 awr yr wythnos yn cael eu treulio mewn addysg neu hyfforddiant.



I gael mwy o wybodaeth,
neu wneud ymholiadau, cysylltwch â:

Cerys Furlong
Cerys.furlong@niace.org.uk
029 2037 0900
@NIACECymru #ncmanifesto

Datblygwyd y maniffesto hwn gan NIACE Cymru, ar y cyd ag ystod o randdeiliaid, aelodau a sefydliadau sy'n bartneriaid.

**NIACE Cymru,**
Third Floor, 35 Cathedral Road,
Cardiff CF11 9HB
Tel: 029 2037 0900 Fax: 029 2037 0909
e-mail: wales@niace.org.uk
Website: www.niacecymru.org.uk
@NIACECymru

**NIACE Cymru,**
3ydd Llawr, 35 Heol yr Eglwys Gadeiriol,
Caerdydd CF11 9HB
Ffôn: 029 2037 0900 Ffacs: 029 2037 0909
e-bost: wales@niace.org.uk
Gwefan: www.niacecymru.org.uk
@NIACECymru

Company limited by guarantee. Registered Number 2603322
Registered Charity Number 1002775
Cwmni cyfyngedig drwy warant. Rhif cofrestru 2603322
Rhif cofrestru elusen 1002775

NIACE CYMRU The National Voice for Lifelong Learning | Y Llais Cenedlaethol dros Ddysgu Gydol Oes